# Y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol

# Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2019

## 12.00 hanner dydd hyd 12.30pm, yn Ystafelloedd Seminar 1 a 2, y Pierhead

**Yn bresennol:** gweler y rhestr sydd wedi'i hatodi

**Croeso a chyflwyniadau:** Croesawodd Huw Irranca-Davies AC (y Cadeirydd) bobl i'r cyfarfod ac eglurodd y byddai'n fyrrach nag arfer er mwyn sicrhau bod cyfle i gynnal y sesiwn gasglu tystiolaeth Ysgolion a Teithio Llesol, a fyddai'n dechrau am 12.30pm. Eglurodd y byddai'r dystiolaeth a gasglwyd yn rhan allweddol o'r adroddiad a'r pecyn cymorth yr oedd y Grŵp Trawsbleidiol wedi cytuno y dylid ei ddatblygu a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.

**Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2019 yn gofnod cywir. Wrth drafod materion sy'n codi, dywedodd y Cadeirydd fod y gweithgor arfaethedig ar deithio llesol i ysgolion wedi cyfarfod ac mai'r sesiwn gasglu tystiolaeth yn ddiweddarach heddiw oedd ei allbwn cyntaf. Yr oedd hefyd wedi mynd ar drywydd y mater ynghylch Canllawiau Ysgolion yr 21ain Ganrif, ac roedd bellach yn aros i gyfarfod ar y cyd â Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth a'r Gweinidog Addysg.

O ran teithio llesol a'r cwricwlwm newydd, mae ymgynghoriad parhaus ynghylch y canllawiau ar gyfer y cwricwlwm, sy'n cau ar 19 Gorffennaf. Cytunwyd y dylai'r Ysgrifennydd ddosbarthu cyflwyniad drafft i'r Aelodau fel y gallai'r Grŵp Trawsbleidiol lunio cyflwyniad ffurfiol. Awgrymodd y Cadeirydd y dylai sefydliadau cysylltiedig ystyried llunio cyflwyniadau tebyg neu gefnogol.

**Beicio i'r Senedd 2019:** Trefnwyd digwyddiad hynod lwyddiannus y llynedd gan Cardiff Cycle City, a ddenodd 200 o bobl i lobïo Aelodau'r Cynulliad. Mae Cycling UK wedi cytuno'n garedig i ddarparu yswiriant felly bydd taith feicio yn ogystal â lobi eleni. Eglurodd y Cadeirydd ei fod yn awyddus i gynnwys Aelodau'r Cynulliad ar y daith eleni, a gynhelir ar 2 Hydref, a bydd yn dechrau o ganolfan Pedal Power yng Ngerddi Sophia. Cynigiodd y gallai'r Grŵp Trawsbleidiol gytuno i gymryd rhan wrth helpu i drefnu'r digwyddiad. Mae Cardiff Cycle City yn cefnogi cyfraniad y Grŵp Trawsbleidiol, a'r bwriad fyddai cynnwys grwpiau eraill yn y gwaith o gynllunio a chynnal y digwyddiad fel y digwyddodd y llynedd.

**Diweddariad ar Hyfforddiant Beicio mewn Ysgolion:**Roedd y Cadeirydd wedi cyflwyno cwestiwn ysgrifenedig i'r Dirprwy Weinidog i geisio canfod nifer y plant sy'n ymgymryd â hyfforddiant beicio mewn ysgolion yng Nghymru. Dosbarthwyd taenlen a oedd yn nodi'r data o ymateb y Dirprwy Weinidog. Roedd nifer y plant a oedd yn ymgymryd â'r hyfforddiant, sef 22 y cant o'r grŵp oedran cymwys, yn siomedig. Mae'r ffocws ar hyfforddiant lefel 2, gan mai dim ond ar y lefel honno ac uwchlaw y datblygir sgiliau ar y ffordd. Nodwyd nad oedd Cyngor Casnewydd yn cynnig unrhyw hyfforddiant ar lefel 2. Roedd hefyd yn glir nad oedd asesiad systematig o effeithiolrwydd yr hyfforddiant na'i ganlyniadau. Nid oedd y data'n gynhwysfawr ac nid oedd, er enghraifft, yn dangos nifer yr ysgolion nad ydynt yn cynnig unrhyw hyfforddiant beicio o gwbl. Daeth llawer o sylwadau o'r llawr yn ystod y cyfarfod, gan gynnwys: pwysigrwydd darparu beiciau cydbwysedd ar gyfer plant sy'n rhoi cynnig ar feicio am y tro cyntaf; yr anhawster sy'n deillio yn sgîl plant heb feiciau, a'r effaith a gaiff hyn ar ddarparu hyfforddiant mewn ysgolion mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, lle na all llawer o deuluoedd fforddio prynu beic; y gost uwch ar gyfer darparu'r hyfforddiant mewn ardaloedd gwledig; yr angen i gynyddu cyllid Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni lefelau uwch o hyfforddiant, a'r ffaith bod adroddiadau ar effeithiolrwydd hyfforddiant beicio yn bodoli mewn ardaloedd tebyg y tu allan i Gymru.

Cytunwyd y dylai'r Grŵp Trawsbleidiol gysylltu ag awdurdodau lleol i gael darlun mwy cywir a lleol o'r ddarpariaeth hyfforddiant beicio a materion cysylltiedig.

**Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod, a daeth â'r cyfarfod i ben.**

**Yn bresennol**:

| **Enw cyntaf** | **Cyfenw** | **Sefydliad** |
|---|---|---|
| Huw | Irranca-Davies | Aelod Cynulliad |
| Richard | Evans | (yn cynrychioli Jane Hutt AC) |
| Meryl | James | (yn cynrychioli Julie Morgan AC) |
| John | Bradley | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Lindsey | Brown | Gweithgor Polisi Cynllunio Cymru |
| Neil | Canham | Sustrans Cymru |
| Duncan | Dollimore | Cycling UK |
| Catherine | Floyd | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Matthew | Gilbert | Trafnidiaeth Cymru |
| Owain | Griffiths | Beicio RCT |
| Rhiannon | Hardiman | Living Streets |
| Richard | Keatinge | Beicio Bangor |
| David | Naylor | Wheelwrights |
| Gwenda | Owen | Cardiff Cycle City |
| John | Pockett | CPT Cymru |
| Gareth | Price | Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor |
| Matt | Price | Gweithgor Polisi Cynllunio Cymru |
| Paula | Renzel | Cerddwyr Cymru |
| Chris | Roberts | Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol |
| John | Sayce | Wheelwrights |
| Phil | Snaith | Fforwm Beicio Sir Gaerfyrddin |
| Paul | Streets | Cardiff Cycle City |
| Dafydd | Trystan | Ysgol Hamadryad |
| Jonathan | West | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Caro | Wild | Cyngor Dinas Caerdydd |